# Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth | 4 |
| Asesu Cydymffurfiaeth | 4 |
| Adrodd ar waith a wnaed yn 2024-2025 | 6 |
| Gwaith sydd i ddod 2025-2026 | 7 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53085, ISBN digidol 978-1-80633-425-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma nawfed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 sy'n gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Y Tribiwnlys sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau yn ymwneud â chleifion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, cleifion sy'n destun gorchymyn triniaeth gymunedol, gorchymyn gwarcheidiaeth, a chleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o'r ysbyty.

Mae'r Tribiwnlys yn gorff barnwrol sy'n annibynnol ar y llywodraeth, a phenodir ei aelodau gan yr Arglwydd Ganghellor. Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys, hynny yw, yr Arweinydd Barnwrol;
- Dau Farnwr Cyflogedig;
- Barnwyr;
- Aelodau Proffesiynol Meddygol; ac
- Aelodau Arbenigol.

Mae aelodaeth y tribiwnlys yn cynnwys 31 o Farnwyr, 43 o Aelodau Meddygol a 40 o Aelodau Arbenigol. Mae gan 14 o'r aelodau hynny (3 Barnwr, 5 Aelod Meddygol a 6 Aelod Arbenigol) sgiliau Cymraeg cryf, a gall y Tribiwnlys gynnull panel llawn (hynny yw barnwr, aelod meddygol ac aelod arbenigol) a all glywed a chynnal gwrandawiad llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd ac yn ymdrin â phob ymholiad ffôn a phob ymholiad ysgrifenedig. Maent yn weision sifil a gyflogir gan Lywodraeth Cymru ac yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae gan dîm yr ysgrifenyddiaeth un aelod sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac mae'r tîm yn gallu cael cymorth gan ysgrifenyddiaethau eraill Uned ehangach Tribiwnlysoedd Cymru, yn ôl yr angen. Mae Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

**Dyddiad cyhoeddi:** 30/09/2025

**Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:** mhrt@llyw.cymru

# Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan Lywydd y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi cael ei gyhoeddi.

# Asesu Cydymffurfiaeth

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau canlynol:

- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn ac ateb negeseuon e-bost.
- Darparu templedi ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyfle i ddefnyddwyr y Tribiwnlys gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ffurflenni cais a dogfennau canllawiau. Mae fersiynau Saesneg y dogfennau a'r ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol sy'n datgan eu bod ar gael yn y Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn y Gymraeg.
- O fis Mawrth 2024, mae cwestiwn dewis iaith newydd wedi'i gynnwys yn y ffurflenni, ac ail gwestiwn nad yw'n orfodol yn gofyn "Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, byddem yn croesawu adborth i gael gwybod am yr hyn sy'n eich rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg mewn Tribiwnlys".
- Sicrhau bod ymwybyddiaeth bod darpariaeth ar waith sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall y rhai sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad.
- Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio system ffôn drwy Microsoft Teams. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

## Defnyddio ein gwasanaethau 2024-2025:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law | 1,825 |
| Nifer y ceisiadau a gafodd eu prosesu yn Gymraeg | 8 |
| Cyfanswm y gwrandawiadau a gynhelir | 921 |
| Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg | 8 |

## Gwefannau

Nodir isod ddadansoddiad o faint o weithiau yr ymwelwyd â thudalen hafan Gymraeg a Saesneg Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

| | Saesneg | Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â'r dudalen | 1,354 | 20 | 1,374 |

## Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn Gymraeg.

## Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/180711-mhrtw-welsh-lang-standards-compliance-cy.pdf.pdf. Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law, os oes rhai, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

## Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion i law'r Tribiwnlys mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

# Adrodd ar waith a wnaed yn 2024-2025

| | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1. | Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. | **Parhau i gyflawni'r amcan**. Mae'r broses wedi'i chynllunio i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr, ac mae'r holl ffurflenni cais yn gofyn i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg ac sydd heb ddewis rhyngweithio yn Gymraeg â'r Tribiwnlys nodi eu rhesymau am beidio â gwneud hynny. Casglwyd data o fis Mawrth 2024. Mae'r data a gesglir yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i Arweinwyr Barnwrol bob chwarter. Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chasglu eto i gynnal dadansoddiad boddhaol. Byddwn yn parhau i gasglu data a fydd yn cael eu dadansoddi cyn gynted ag y bydd digon o ddata wedi'u casglu gan ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| 2. | Darparu hyfforddiant i holl aelodau'r Tribiwnlys a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gwrandawiadau ac mewn perthynas â chyfathrebu ehangach, ac o rwymedigaethau'r Tribiwnlysoedd o dan Safonau'r Gymraeg. | **Amcan wedi'i gwblhau**. Darparwyd hyfforddiant i staff gweinyddol Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod y Diwrnod Hyfforddi Tîm ym mis Medi 2023. Cafodd gwybodaeth ei darparu i aelodau'r Tribiwnlys ar Safonau'r Gymraeg ym mis Tachwedd 2024. |
| 3. | Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2024-25 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd. | **Parhau i gyflawni'r amcan**. Rydym wedi nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i'r wefan a fydd yn galluogi hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'n hadran TG ar hyn o bryd i weithredu'r gwelliannau hynny. |
| 4. | Asesu cydymffurfiaeth y Tribiwnlys â Safonau'r Gymraeg yn erbyn llinell sylfaen a sefydlwyd yn 2023-24. | **Amcan wedi'i gwblhau**. Ni nodwyd unrhyw faterion sylfaenol wrth asesu canlyniadau'r hunanasesiad ar gydymffurfiaeth staff â Safonau'r Gymraeg. Caiff hunanasesiad pellach ei gynnal yn 2025-26. |

# Gwaith sydd i ddod 2025-2026

1. Asesu cydymffurfiaeth Staff y Tribiwnlys â safonau'r Gymraeg drwy gwblhau hunanasesiad.
2. Diweddaru'r asesiad o sgiliau Cymraeg Deiliaid Swyddi Barnwrol.
3. Cysylltu â holl Weinyddwyr a Chynrychiolwyr Cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl i'w hannog i drafod y defnydd o'r Gymraeg mewn Tribiwnlysoedd â chleifion.
4. Dosbarthu Dogfen sy'n amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg i bob Deiliad Swydd Farnwrol.
5. Nodi gwelliannau pellach y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2025-26 i adeiladu ar y cynnydd a wnaed wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Tribiwnlys.